



Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

2013 dccc 1

Nodiadau Esboniadol

School Standards and Organisation (Wales) Act 2013

2013 anaw 1

Explanatory Notes

£9.75



Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

2013 dccc 1

Nodiadau Esboniadol

School Standards and Organisation (Wales) Act 2013

2013 anaw 1

Explanatory Notes

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Ionawr 2013 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf.
2. Mae'r pwerau i wneud y Ddeddf i'w cael yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 iddi. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mewn cysylltiad â hi, yn rhinwedd Atodlen 7, pwnc 5 (addysg a hyfforddiant) a phwnc 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd).
3. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, ystyr "Deddf 1998" yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

SYLWEBEAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1 - Cyflwyniad

Adran 1 - Trosolwg ar y Ddeddf hon

4. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg ar ddarpariaethau allweddol y Ddeddf. Mae 6 Rhan a 5 Atodlen i'r Ddeddf.

Rhan 2 - Safonau

5. Mae Penodau 1 a 2 o Ran 2 o'r Ddeddf hon yn diwygio'r gyfraith bresennol mewn cysylltiad ag ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol.
6. Yn gyffredinol, mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf fydd cymryd camau mewn cysylltiad ag ysgolion sy'n peri pryder, a dim ond pan fo'r awdurdod wedi methu â'u cymryd, neu pan fo wedi cymryd camau ond wedi gwneud hynny mewn modd annigonol, y bydd Gweinidogion Cymru fel arfer yn cymryd camau.

Adran 2 - Y seiliau dros ymyrryd

7. Mae'r adran hon yn nodi'r wyth sail dros ymyrraeth gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru mewn ysgol a gynhelir.
8. Mae'r seiliau dros ymyrryd a nodir yn yr adran hon yn disodli'r seiliau a nodir yn adran 15(2)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ('Deddf 1998'), gyda

SCHOOL STANDARDS AND ORGANISATION (WALES) ACT 2013

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 which was passed by the National Assembly for Wales on 15 January 2013 and received Royal Assent on 4 March 2013. They have been prepared by the Department for Education and Skills of the Welsh Government in order to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.
2. The powers to make the Act are contained in Part 4 and Schedule 7 of the Government of Wales Act 2006. The National Assembly for Wales has the legislative competence to make provision for and in connection with the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 by virtue of Schedule 7, subject 5 (education and training) and subject 9 (health and health services).
3. In these Explanatory Notes, “the 1998 Act” means the School Standards and Framework Act 1998.

COMMENTARY ON SECTIONS

Part 1 - Introduction

Section 1 - Overview

4. This section provides an overview of the key provisions of the Act. The Act has 6 Parts and 5 Schedules.

Part 2 - Standards

5. Chapters 1 and 2 of Part 2 of this Act reform the existing law in respect of intervention by local authorities and Welsh Ministers in the conduct of schools maintained by local authorities and intervention by Welsh Ministers in the exercise of education functions by local authorities.
6. Generally, it will be for the local authority to take action in respect of schools causing concern in the first instance, and the Welsh Ministers will normally only take action where the authority has failed to do so, or where it has taken action, it has done so inadequately.

Section 2 - Grounds for intervention

7. This section sets out the eight grounds for intervention by a local authority or the Welsh Ministers in a maintained school.
8. The grounds for intervention set out in this section replace the grounds set out in section 15(2)(a) of the School Standards and Framework Act 1998 (‘the 1998 Act’),

diwygiadau. Yn ychwanegol, mae seiliau 5 a 6 wedi eu sylfaenu ar bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn adrannau 497 a 496, yn y drefn honno, o Ddeddf Addysg 1996 (gweithredu afresymol gan gorff llywodraethu neu ei fethiant i gydymffurfio â dyletswydd). Mae cynnwys darpariaethau adrannau 496 a 497 o Ddeddf Addysg 1996 fan hyn yn golygu y caiff awdurdodau lleol yn ogystal â Gweinidogion Cymru ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ar sail methiant corff llywodraethu i gydymffurfio â dyletswydd neu weithredu afresymol ganddo. Erbyn hyn, mae seiliau 5 a 6 hefyd yn cynnwys cyfeiriad at fethiant pennaeth i gydymffurfio â dyletswydd neu weithredu afresymol ganddo.

Adran 3 – Hysbysiad rhybuddio

9. Mae'r adran hon yn darparu y caiff yr awdurdod lleol, os yw un neu ragor o seiliau 1 i 6 a nodir yn adran 2 yn bodoli, roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol, ac mae'n pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad rhybuddio ei chynnwys. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan awdurdod lleol mewn ysgol yw'r hysbysiad rhybuddio a gall arwain at y pwerau ymyrryd yn cael eu harfer ganddo.

Adran 4 – Pŵer i ymyrryd

10. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff awdurdod lleol arfer y pwerau i ymyrryd mewn ysgol a gynhelir. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 5 i 9.
11. Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni bod un neu ragor o seiliau 1 i 6 yn bodoli, ac wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 3, yna caiff arfer ei bwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol o'r farn bod un neu ragor o seiliau 1 i 6 yn bodoli a hefyd o'r farn bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, yna nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer ei bwerau ymyrryd.
12. Yn ychwanegol, caiff yr awdurdod lleol arfer ei bwerau ymyrryd os yw wedi ei fodloni bod sail 7 neu sail 8 yn bodoli (ysgolion y mae arolygiad wedi barnu bod arnynt angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig). Yn yr achos hwn, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddyroddi hysbysiad rhybuddio.

Adran 5 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio

13. Mae'r adran hon yn darparu pŵer newydd i awdurdod lleol gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol i wneud trefniadau neu ymrwymo i gontract i ddarparu gwasanaethau cynghori, neu i gydlafurio yn unol ag adran 5(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011, er mwyn gwella perfformiad yr ysgol.

Adran 6 – Pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol

14. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 16 o Ddeddf 1998, ac yn darparu i awdurdodau lleol bŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

with amendments. In addition grounds 5 and 6 are based on the Welsh Ministers' intervention powers in sections 497 and 496 respectively of the Education Act 1996 (governing body's unreasonable action or failure to comply with a duty). Incorporating provisions of sections 496 and 497 of the Education Act 1996 here means that local authorities as well as the Welsh Ministers can intervene in the conduct of a maintained school on the basis of a governing body's failure to comply with a duty or its unreasonable action. Grounds 5 and 6 also now include reference to a head teacher's failure to comply with a duty or unreasonable action.

Section 3 – Warning notice

9. This section provides that if one or more of grounds 1 to 6 set out in section 2 exist the local authority may give a warning notice to the governing body of a school, and specifies what information a warning notice must contain. The warning notice is generally the start of the process of intervention by a local authority in a school and may lead to the powers of intervention being exercised by it.

Section 4 – Power to intervene

10. This section sets out the circumstances where the powers to intervene in a maintained school may be exercised by a local authority. The powers of intervention are in sections 5 to 9.
11. Where a local authority is satisfied that one or more of grounds 1 to 6 exist, and it has complied with the warning notice procedure set out in section 3, then it may exercise its powers of intervention. However, if a local authority believes that one or more of grounds 1 to 6 exist and also believes there is a related risk to health and safety of any person that calls for urgent action then it does not have to comply with the warning notice procedure before exercising its powers of intervention.
12. In addition, the local authority may exercise its powers of intervention if it is satisfied that grounds 7 or 8 exist (schools found by an inspection to require significant improvement or to be in need of special measures). In this case the local authority does not have to issue a warning notice.

Section 5 – Power to require governing body to secure advice or collaborate

13. This section provides a new power for a local authority to direct the governing body of a school to make arrangements or enter into a contract for the provision of advisory services or to collaborate in accordance with section 5(2) of the Education (Wales) Measure 2011, so as to improve the school's performance.

Section 6 – power to appoint additional governors

14. This section replaces the intervention power in section 16 of the 1998 Act, and provides local authorities with a power to appoint additional governors to the governing body of a maintained school.

Adran 7 - Pŵer awdurdod lleol i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim

15. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 16A o Ddeddf 1998. Mae'n darparu i awdurdodau lleol bŵer i benodi corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn arbennig yn lle'r llywodraethwyr presennol mewn ysgol pan fo gan yr awdurdod lleol bŵer i ymyrryd. Gelwir y corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn arbennig yn fwrdd gweithrediaeth interim a bydd yn cymryd drosodd y gwaith o redeg yr ysgol. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch byrddau gweithrediaeth interim.

Adran 8 - Pŵer awdurdod lleol i atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig

16. O dan adran 49 o Ddeddf 1998, mae gan bob ysgol a gynhelir hawl i gael cyllideb ddirprwyedig, sy'n golygu bod gan eu cyrff llywodraethu hawlogaeth i reoli cyllideb yr ysgol. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 17 o Ddeddf 1998, ac yn darparu pŵer i awdurdodau lleol atal dros dro hawl ysgol i gael cyllideb ddirprwyedig os oes gan awdurdod lleol y pŵer i ymyrryd yn yr ysgol.

Adran 9 - Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

17. Mae'r adran hon yn darparu pŵer cyffredinol i'r awdurdod lleol ddyroddi'r cyfarwyddiadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol i gorff llywodraethu neu bennaeth ysgol y mae'r awdurdod yn ei chynnal, a chymryd unrhyw gamau eraill, pan fo un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd yn bodoli.
18. Mae'r adran hon yn disodli adran 62 o Ddeddf 1998 (pŵer awdurdod lleol i atal methiant mewn disgyblaeth). Mae hefyd yn darparu i awdurdodau lleol bwerau tebyg i bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn adrannau 496 a 497 o Ddeddf Addysg 1996 (ond yn annhebyg i adrannau 496 a 497, nid yw'r pŵer i ymyrryd yma yn gyfyngedig i'r achosion hynny lle y mae sail 5 neu sail 6 yn bodoli).

Adran 10 - Hysbysiad rhybuddio

19. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio ffurfiol i ysgol a gynhelir. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn ysgol yw hysbysiad rhybuddio, a gall arwain at bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer.
20. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol pan fo un neu ragor o seiliau 1 i 6 (a nodir yn adran 2) yn bodoli, ond bod yr awdurdod lleol heb roi hysbysiad rhybuddio neu wedi gwneud hynny mewn termau sy'n annigonol ym marn Gweinidogion Cymru. Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn esbonio i'r corff llywodraethu y rhesymau pam y mae'n cael ei roi a'r camau y dylai'r corff llywodraethu eu cymryd.

Adran 11 - Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

21. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau i ymyrryd mewn ysgol a gynhelir. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 12 i 17 o'r Ddeddf.

Section 7 – Power of local authority to constitute governing body of interim executive members

15. This section replaces the intervention power in section 16A of the 1998 Act. It provides local authorities with a power to appoint a specially constituted governing body in place of the existing governors at a school where the local authority has a power to intervene. The specially constituted governing body is known as an interim executive board and it will take over the running of the school. Schedule 1 makes further provision about interim executive boards.

Section 8 – Power of local authority to suspend right to delegated budget

16. Under section 49 of the 1998 Act all maintained schools have a right to a delegated budget, which means that their governing bodies are entitled to manage the school's budget. This section replaces the intervention power in section 17 of the 1998 Act, and provides a power for local authorities to suspend a school's right to a delegated budget if a local authority has the power to intervene in the school.

Section 9 – General power to give directions and take steps

17. This section provides a general power for local authorities to issue such directions to the governing body or head teacher of a school it maintains as it thinks appropriate and to take any other steps when one or more of the grounds for intervention exist.
18. This section replaces section 62 of 1998 Act (local authority's power to prevent a breakdown of discipline). It also provides for local authorities to have powers similar to the Welsh Ministers' intervention powers in sections 496 and 497 of the Education Act 1996 (but unlike sections 496 and 497, the power to intervene here is not limited to those cases where grounds 5 or 6 exist).

Section 10 – Warning notice

19. This section sets out the circumstances in which the Welsh Ministers may give a formal warning notice to a maintained school. A warning notice is generally the start of the intervention process by the Welsh Ministers in a school, and may lead to the Welsh Ministers' powers of intervention being exercised.
20. The Welsh Ministers may issue a warning notice to the governing body of a school where one or more of grounds 1 to 6 (set out in section 2) exist, but the local authority has not given a warning notice or has done so in terms the Welsh Ministers consider are inadequate. The warning notice will explain to the governing body the reasons why it is being given and the action that the governing body should take.

Section 11 – Power of the Welsh Ministers to intervene

21. This section sets out the circumstances where the powers to intervene in a maintained school may be exercised by the Welsh Ministers. The powers of intervention are set out in sections 12 to 17 of the Act.

22. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu ragor o seiliau 1 i 6 yn bodoli, ac wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 10, cânt arfer eu pwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu ragor o seiliau 1 i 6 yn bodoli a bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, yna nid oes rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer eu pwerau ymyrryd.
23. Yn ychwanegol, caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau ymyrryd os ydynt wedi eu bodloni bod sail 7 neu sail 8 yn bodoli (ysgolion y mae arolygiad wedi barnu bod arnynt angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig). Yn yr achos hwn, nid oes rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio.

Adran 12, 13 a 14 – Pwerau Gweinidogion Cymru, etc

24. Mae'r adrannau hyn yn darparu pwerau sy'n adlewyrchu pwerau'r awdurdod lleol a geir yn adran 5, 6 a 7.

Adran 15 – Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio

25. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 18B o Ddeddf 1998 ac yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer i ddyroddi cyfarwyddiadau ynghylch ffedereiddio ysgolion. Mae ffederasiwn o ysgolion yn grŵp o ddwy neu ragor o ysgolion o dan un corff llywodraethu.

Adran 16 – Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau

26. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 19 o Ddeddf 1998 ac yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau os oes ganddynt bŵer i ymyrryd ar dir sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig). Pan fo Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau o dan yr adran hon, nid oes angen i awdurdod lleol wneud cynigion i derfynu'r ysgol o dan Ran 3.

Adran 17 – Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

27. Mae'r adran hon yn darparu pŵer sy'n adlewyrchu pŵer yr awdurdod lleol yn adran 9 (pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau).

Adrannau 18, 19 ac 20 ac Atodlen 1 – Darpariaethau atodol

28. Mae adran 18 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â byrddau gweithrediaeth interim (a gyfansoddwyd yn dilyn cyfarwyddyd o dan adran 7 neu 14). Mae'n ymwneud â'r trosi o gorff a gyfansoddwyd yn normal i gorff o aelodau gweithrediaeth interim, a hefyd y trosi o gorff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim yn ôl i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Yn ystod y cyfnod y mae'r aelodau gweithrediaeth interim yn eu swyddi, rhaid iddynt gyflawni swyddogaethau aelodau'r corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Mae hyn yn golygu eu bod yn ddarostyngedig i'r un gyfraith ag aelodau'r corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal, ac eithrio mewn perthynas â'u cyfansoddiad a gweithdrefn (paragraff 13 o Atodlen 1). Fodd bynnag, caniateir i reoliadau a wneir o dan baragraffau penodol o

22. Where the Welsh Ministers are satisfied that one or more of grounds 1 to 6 exist, and they have complied with the warning notice procedure set out in section 10, they may exercise their powers of intervention. However, if the Welsh Ministers are satisfied one or more of grounds 1 to 6 exist, and also believe there is a related risk to health and safety of any person which calls for urgent action, then the Welsh Ministers do not have to comply with the warning notice procedure before exercising their powers of intervention.
23. In addition the Welsh Ministers may exercise their powers of intervention if they are satisfied grounds 7 or 8 exist (schools found by an inspection to require significant improvement or to be in need of special measures). In this case the Welsh Ministers do not have to comply with the warning notice procedure.

Sections 12, 13 and 14 – Powers of Welsh Ministers, etc

24. These sections provide mirror powers to those of the local authority contained in sections 5, 6 and 7

Section 15 – Power of Welsh Ministers to direct federation of schools

25. This section replaces the intervention power in section 18B of the 1998 Act and provides the Welsh Ministers with the power to issue directions relating to the federation of schools. A federation of schools is the grouping of two or more schools under a single governing body.

Section 16 – Power of Welsh Ministers to direct closure of school

26. This section replaces the intervention power in section 19 of the 1998 Act and provides the Welsh Ministers with the power to direct the closure of a school if they have the power to intervene on the basis of ground 8 (school requiring special measures). Where the Welsh Ministers direct the closure of a school under this section there is no need for a local authority to make proposals to discontinue the school under Part 3.

Section 17 – General power to give directions and take steps

27. This section provides a mirror power to that of the local authority in section 9 (general power to give directions and take steps).

Sections 18, 19 and 20 and Schedule 1 – Supplementary

28. Section 18 introduces Schedule 1 which makes further provision in relation to interim executive boards (constituted following a direction under section 7 or 14). It deals with the transition from a normally constituted body to one consisting of interim executive members, and also the transition from a governing body consisting of interim executive members back to a normally constituted governing body. During the period in which the interim executive members are in post they must discharge the functions of the normally constituted governing body members. This means they are subject to the same law as normally constituted governing body members, except in relation to their constitution and procedures (paragraph 13 of Schedule 1). However, regulations made under certain paragraphs of section 19(3) of the Education Act 2002 may be applied to the board, for example, in relation to school staffing issues.

adran 19(3) o Ddeddf Addysg 2002 gael eu cymhwyso i'r bwrdd, er enghraifft, mewn perthynas â materion staffio ysgolion.

29. Mae adran 19 yn darparu bod yn rhaid i bennaeth neu gorff llywodraethu ysgol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru o dan Bennod 1 o Ran 2 o'r Ddeddf hon. Rhaid i gyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig a chaniateir ei orfodi drwy orchymyn mandadol llys.
30. Mae adran 20 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol o ran arfer eu swyddogaethau o dan y Bennod hon. Yn unol â hynny, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau o'r fath.

Pennod 2 - Ymyrryd mewn Awdurdodau Lleol

31. Mae'r Bennod hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd yn y ffordd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau addysg (sef y swyddogaethau hynny a nodir yn Atodlen 36A i Ddeddf Addysg 1996).

Adran 21 - Y seiliau dros ymyrryd

32. Mae'r adran hon yn nodi'r seiliau dros ymyrryd y mae'n rhaid iddynt fodoli i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod lleol. Mae'r seiliau hyn yn disodli'r seiliau dros ymyrryd mewn awdurdodau lleol a nodir yn adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996 o ran Cymru. Os yw un neu ragor o'r seiliau hyn yn bodoli, caiff Gweinidogion Cymru ddechrau'r broses ymyrryd.
33. Ni fydd adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996 bellach yn gymwys ond i awdurdodau lleol yn Lloegr.

Adran 22 - Hysbysiad rhybuddio

34. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, os yw un neu ragor o'r tair sail a nodir yn adran 21 yn bodoli, ddyroddi hysbysiad rhybuddio i'r awdurdod lleol, ac mae'n pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad rhybuddio ei chynnwys. Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio, ymhlith pethau eraill, esbonio pam y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y seiliau dros ymyrryd yn bodoli a'r hyn y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei wneud i ymdrin â hwy. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn awdurdod lleol yw hysbysiad rhybuddio, a gall arwain at bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer.

Adran 23 - Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

35. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau i ymyrryd mewn awdurdod lleol. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 24 i 28.
36. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu ragor o seiliau 1 i 3 yn bodoli, a'u bod wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 22, yna cânt arfer eu pwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod un neu ragor o seiliau 1 i 3 yn bodoli a bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, neu fod yr awdurdod lleol yn annhebyg o allu cydymffurfio neu sicrhau cydymffurfedd â hysbysiad rhybuddio, yna nid oes rhaid iddynt

*These notes refer to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (anaw 1)
which received Royal Assent on 4 March 2013*

29. Section 19 provides that a head teacher or governing body of a school must comply with a direction given to them by a local authority or the Welsh Ministers under Chapter 1 of Part 2 of this Act. A direction must be in writing and may be enforced by a mandatory order of a court.
30. Section 20 provides a power for the Welsh Ministers to issue guidance to local authorities in relation to the exercise of its functions under this Chapter. Accordingly, a local authority must have regard to such guidance.

Chapter 2 - Intervention in Local Authorities

31. This Chapter sets out the circumstances in which the Welsh Ministers can intervene in the way a local authority is exercising its education functions (which are those functions set out in Schedule 36A to the Education Act 1996).

Section 21 - Grounds for intervention

32. This section sets out the grounds for intervention that must exist for the Welsh Ministers to intervene in a local authority. These grounds replace the grounds for intervention in local authorities set out in sections 496 to 497A of the Education Act 1996 for Wales. If one or more these grounds exist, the Welsh Ministers will be able to begin the process for intervention.
33. Sections 496 to 497A of the Education Act 1996 will now apply only to local authorities in England.

Section 22 - Warning notice

34. This section provides that if one or more of the three grounds set out in section 21 exist, the Welsh Ministers may issue a warning notice to the local authority and specifies what information a warning notice must contain. The warning notice must, among other things, explain why the Welsh Ministers consider the grounds for intervention exist and what the local authority must do to deal with them. A warning notice is generally the start of the intervention process by the Welsh Ministers in a local authority, and may lead to the Welsh Ministers' powers of intervention being exercised.

Section 23 - Power of Welsh Ministers to intervene

35. This section sets out the circumstances where the powers to intervene in a local authority may be exercised by the Welsh Ministers. The powers of intervention are set out in sections 24 to 28.
36. Where the Welsh Ministers are satisfied that one or more of grounds 1 to 3 exist, and they have complied with the warning notice procedure set out in section 22, then they may exercise their powers of intervention. However, if the Welsh Ministers believe that one or more of grounds 1 to 3 exist, and also believe there is a related risk to health and safety of any person that calls for urgent action, or that the local authority is unlikely to be able to comply or secure compliance with a warning notice, then they do not have to comply with the warning notice procedure before exercising their powers of intervention.

gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer eu pwerau ymyrryd.

Adran 24 - Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cynghori

37. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 63 o Ddeddf Addysg 2002 ac yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i gael gwasanaethau cynghori gan drydydd parti.

Adran 25 - Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod

38. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i ddefnyddio gwasanaethau trydydd parti i gyflawni ei swyddogaethau.

Adran 26 - Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai

39. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod swyddogaethau awdurdod lleol yn cael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebir gan Weinidogion Cymru.

Adran 27 - Pŵer i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer

40. Mae adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth ddyroddi cyfarwyddiadau o dan adran 25 neu 26, i gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau addysg yr awdurdod lleol, ac nid yn unig y swyddogaethau hynny y mae'r pwerau ymyrryd yn ymwneud â hwy.

Adran 28 - Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

41. Pan fo'r pŵer i ymyrryd yn bodoli, mae'r adran hon yn darparu pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau i awdurdod lleol, a chymryd camau mewn perthynas ag ef. Mae cymryd camau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud pethau eraill y maent yn ystyried y gallent helpu i ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, ac eithrio gwneud cyfarwyddyd.

Adran 30 - Dyletswydd i gydweithredu

42. Mae'r adran hon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu gynorthwyo gyda'r camau y mae'n ofynnol eu cymryd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau, yn disodli adran 497AA o Ddeddf Addysg 1996 (pŵer i sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n briodol: dyletswydd awdurdod pan fo cyfarwyddiadau'n cael eu hystyried) gyda rhai diwygiadau.

Adran 31 - Pwerau mynd i mewn ac arolygu

43. Mae'r adran hon, sy'n nodi hawliau mynediad mewn cysylltiad â chyflawni cyfarwyddiadau, yn disodli adran 497B o Ddeddf Addysg 1996 (pŵer i sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n briodol: darpariaethau pellach) gyda rhai diwygiadau.

Section 24 – Power to require local authority to obtain advisory services

37. This section replaces the intervention power in section 63 of the Education Act 2002 and provides a power for the Welsh Ministers to direct the local authority to obtain advisory services from a third party.

Section 25 – Power to require performance of functions by other persons on behalf of authority

38. This section provides a power for Welsh Ministers to direct a local authority to use the services of a third party to carry out its functions.

Section 26 – Power to require performance of functions by Welsh Ministers or nominee

39. This section allows the Welsh Ministers to direct that a local authority's functions are carried out by the Welsh Ministers or by a person nominated by the Welsh Ministers.

Section 27 – Power to direct exercise of other education functions

40. Section 27 enables the Welsh Ministers, when issuing directions under section 25 or 26, to include directions that relate to any of the local authority's education functions, and not just those functions to which the powers to intervene relate.

Section 28 – General power to give directions and take steps

41. Where the power to intervene exists this section provides a general power to give directions to a local authority and take steps in relation to it. The taking of steps enables Welsh Ministers to do other things they consider might help to deal with the grounds for intervention other than making a direction.

Section 30 – Duty to co-operate

42. This section, which requires local authorities and governing bodies to assist with the action required to comply with directions, replaces section 497AA of the Education Act 1996 (power to secure proper performance: duty of authority where directions contemplated) with some amendments.

Section 31 – Powers of entry and inspection

43. This section, which sets out rights of access in connection with the carrying out of directions, replaces section 497B of the Education Act 1996 (power to secure proper performance: further provisions) with some amendments.

Pennod 3 - Canllawiau Gwella Ysgolion

44. Mae'r Bennod hon yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau er mwyn gwella safonau addysg.

Adran 32 - Ystyr "awdurdod ysgol"

45. Mae'r adran hon yn diffinio'r term "awdurdod ysgol" i olygu awdurdod lleol, corff llywodraethu neu bennaeth ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Adran 33 - Pŵer i ddyroddi canllawiau gwella ysgolion

46. Mae adran 33 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau ysgol sy'n nodi'r ffordd y maent i wella safonau addysg mewn ysgolion.

Adran 34 - Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

47. Mae adran 34 yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi canllawiau gwella ysgolion. Ymhlith pethau eraill mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch y canllawiau a gosod copi ohonynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 35 - Dyletswydd i ddilyn canllawiau gwella ysgolion

48. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau ysgol i gydymffurfio â'r canllawiau a ddyroddir o dan adran 33.
49. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdodau ysgol wyro oddi wrth y canllawiau hynny mewn amgylchiadau penodol er mwyn darparu ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd ac arloesi. Pan fo awdurdod ysgol sy'n awdurdod lleol neu'n gorff llywodraethu yn dymuno gwro oddi wrth y canllawiau, rhaid iddo ddyroddi datganiad polisi gan roi manylion ynghylch ei bolisi amgen ar gyfer arfer y swyddogaethau addysg o dan sylw. Yna, rhaid iddo ddilyn y polisi amgen hwnnw. Os bydd yr awdurdodau ysgol yn gwro'n rhannol oddi wrth y canllawiau (is-adran (2) neu (3) ac adran 36), bydd yn rhaid iddynt lynu wrth y datganiad polisi ac (i'r graddau nad yw'r datganiad polisi yn ymwneud â mater) y canllawiau.
50. Yn ychwanegol, ni fydd y ddyletswydd i ddilyn y canllawiau gwella ysgolion neu ddatganiad polisi yn gymwys o ran unrhyw awdurdod ysgol pe byddai gwneud hynny'n afresymol.

Adran 37 - Cyfarwyddiadau

51. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r ffordd amgen o weithredu a nodir yn natganiad polisi awdurdod ysgol yn debyg o wella safonau addysgol, cânt ddyroddi i'r awdurdod ysgol gyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r canllawiau. Rhaid dyroddi cyfarwyddyd yn ysgrifenedig a chaniateir ei orfodi drwy orchymyn mandadol.

Rhan 3: Trefniadaeth Ysgolion

52. Mae Rhan 3 yn diwygio ac yn dwyn ynghyd mewn un lle y gyfraith sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion ar gyfer Cymru; yn ei gwneud yn ofynnol i God newydd am Drefniadaeth Ysgolion gael ei gyhoeddi; ac yn creu fframwaith newydd ar gyfer

Chapter 3 – School Improvement Guidance

44. This Chapter provides for the Welsh Ministers to issue guidance to head teachers, governing bodies and local authorities about how to exercise their functions so as to improve standards of education.

Section 32 - Meaning of “school authority”

45. This section defines the term “school authority” to mean a local authority, governing body or head teacher of a maintained school in Wales.

Section 33 - Power to issue school improvement guidance

46. Section 33 provides a power for the Welsh Ministers to issue guidance to school authorities setting out how they are to improve the standards of education in schools.

Section 34 - Consultation and National Assembly for Wales procedures

47. Section 34 sets out the procedure the Welsh Ministers must follow before issuing school improvement guidance. Amongst other things it requires consultation and for the Welsh Ministers to lay a copy of the guidance before the National Assembly for Wales.

Section 35 - Duty to follow school improvement guidance

48. This section places a duty on school authorities to comply with guidance issued under section 33.
49. This section does allow for school authorities to depart from that guidance in certain circumstances in order to provide for a degree of flexibility and innovation. Where a school authority which is a local authority or a governing body wishes to depart from the guidance it must issue a policy statement detailing its alternative policy for exercising the education functions concerned. It must then follow that alternative policy. If there is a partial departure from the guidance (subsection (2) or (3) and section 36), school authorities will have to adhere to both the policy statement and (in so far as the policy statement does not deal with a matter) the guidance.
50. In addition the duty to follow the school improvement guidance or a policy statement will not apply to any school authority if to do so would be unreasonable.

Section 37 - Directions

51. Where the Welsh Minister consider that the alternative course of action set out in a school authority’s policy statement is not likely to improve educational standards they may issue a direction to the school authority requiring it to comply with the guidance. A direction must be issued in writing and may be enforced by a mandatory order.

Part 3 - School Organisation

52. Part 3 reforms and brings together in one place the law relating to school organisation for Wales; requires the publication of a new Code on School Organisation; and, creates a new framework for the determination of proposals which receive objections, including a simplified process for proposals to close schools with fewer than 10 pupils.

penderfynu ar gynigion sy'n derbyn gwrthwynebiadau, gan gynnwys proses symlach ar gyfer cynigion i gau ysgolion sydd â llai na 10 disgybl.

Adrannau 38 a 39 - Y Cod Trefniadaeth Ysgolion etc.

53. Mae adran 38 yn creu gofyniad i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod (neu godau) am drefniadaeth ysgolion ("y Cod") y mae'n rhaid i'r personau a restrir yn is-adran (2) weithredu yn unol ag ef os yw'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Caiff y Cod hefyd gynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill y mae'n rhaid i'r personau a enwir roi sylw iddynt.
54. Mae adran 39 yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi'r Cod. Ymhlith pethau eraill mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch y Cod a gosod copi ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 40 - Cyfyngu ar sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir

55. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol a gynhelir gael ei hagor neu ei chau, neu i newid sylweddol (a elwir yn 'newid rheoleiddiedig') gael ei wneud, yn unol â'r prosesau a nodir yn y Rhan hon – ac eithrio pan fo Gweinidogion Cymru yn defnyddio eu pŵer ymyrryd i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau o dan adran 16. Nodir y newidiadau rheoleiddiedig yn Atodlen 2. Mae is-adran (2) o adran 40 yn gwahardd sefydlu ysgol sefydledig newydd neu ysgol arbennig sefydledig newydd yng Nghymru. Mae is-adran (5) yn gwahardd unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol neu'n peri iddi gaffael neu golli cymeriad crefyddol.
56. Gwnaed darpariaeth debyg yn adrannau 28(11) a 33 o Ddeddf 1998.

Adrannau 41 i 44 ac Atodlen 2 - Cynigion y caniateir iddynt gael eu gwneud mewn cysylltiad ag ysgolion yng Nghymru

57. Mae'r adrannau hyn yn rhoi i awdurdodau lleol bŵer i wneud cynigion:
- i sefydlu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol arbennig gymunedol;
 - i derfynu ysgol gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol arbennig gymunedol;
 - i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol arbennig gymunedol;
 - i wneud newid rheoleiddiedig i gynyddu neu leihau capasiti mewn ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig nad oes ganddi gymeriad crefyddol;
 - i wneud newid rheoleiddiedig i agor neu gau chweched dosbarth ysgol mewn ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.
58. Yn ychwanegol, caiff unrhyw berson wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol a chaiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol neu i derfynu'r ysgol.

Sections 38 and 39 School Organisation Code etc

53. Section 38 creates a requirement for the Welsh Ministers to issue and publish a code (or codes) on school organisation (“the Code”) with which the persons listed at subsection (2) must act in accordance if the Code requires them to do so. The Code may also include guidelines setting out aims, objectives and other matters to which the named persons must have regard.
54. Section 39 sets out the procedure that the Welsh Ministers must follow before issuing the Code. Amongst other things it requires consultation and for the Welsh Ministers to lay a copy of the Code before the National Assembly for Wales.

Section 40 - Restriction on establishment, alteration and discontinuance of maintained schools

55. This section requires that the opening or closing of a maintained school, or the making of a significant alteration (known as a ‘regulated alteration’) be done in accordance with the processes set out in this Part – except where the Welsh Ministers are using their power of intervention to direct that a school be closed under section 16. The regulated alterations are set out in Schedule 2. Subsection (2) of section 40 prohibits the establishment of a new foundation or foundation special school in Wales. Subsection (5) prohibits any alteration to a maintained school that changes its religious character or causes it to acquire or lose a religious character.
56. Similar provision was made in sections 28(11) and 33 of the 1998 Act.

Sections 41 to 44 and Schedule 2 - Proposals that may be made in respect of schools in Wales

57. These sections give local authorities the power to make proposals to:
- establish a community, voluntary, maintained nursery, or community special school;
 - discontinue a community, maintained nursery, voluntary, foundation, or community special school;
 - make a regulated alteration to a community, maintained nursery, or community special school;
 - make a regulated alteration to increase or reduce capacity at a voluntary or foundation school that does not have a religious character;
 - make a regulated alteration to open or close a school’s sixth form at a voluntary or foundation school, with the consent of the Welsh Ministers.
58. In addition, any person may make proposals to establish a voluntary school, and the governing body of a foundation or voluntary school may make proposals to make a regulated alteration to the school or to discontinue the school.

59. Mae Atodlen 2 yn nodi'n fanwl y newidiadau rheoleiddiedig y caniateir eu gwneud i ysgol. Ymhlith newidiadau eraill mae'n caniatáu ar gyfer:
- newidiadau i gapasiti'r ysgol (paragraffau 10 i 14). Wrth bwysu a mesur a yw capasiti'r ysgol wedi newid, mae newidiadau blaenorol i'w hystyried fel na ellir gwneud newidiadau i'r capasiti yn gynyddrannol heb yr angen i wneud cynigion;
 - cynnydd neu leihad yn ystod oedran yr ysgol (paragraff 5). Nid yw cynnydd yn ystod oedran uchaf ysgol yn caniatáu i chweched dosbarth gael ei ychwanegu. Mae darpariaeth ar wahân yn yr Atodlen (ym mharagraff 6) yn caniatáu i chweched dosbarth gael ei ychwanegu at ysgol (neu ei dynnu oddi wrthi);
 - newidiadau i gyfrwng iaith yr ysgol (paragraffau 7 ac 8). Mae'r rhain wedi eu diweddarau ers Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 i adlewyrchu cyflwyno'r cyfnod sylfaen a methodolegau addysgu mewn ysgolion cynradd; nid yw'r rhain bellach yn cyfeirio at bynciau ond yn hytrach at ganrannau'r amser a dreulir yn addysgu disgyblion.
60. Mae paragraff 26 o'r Atodlen yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu, newid neu ddileu newid rheoleiddiedig drwy Orchymyn.
61. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu seilio ar adrannau 28, 29 ac 31 o Ddeddf 1998 a'r rheoliadau a wnaed o dan y pwerau hyn.

Adran 45 i 47 - Newid categori ysgol etc.

62. Rhennir ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (ac eithrio ysgolion meithrin a gynhelir) i gategoriâu gwahanol a nodir yn adran 20 o Ddeddf 1998. Mae adrannau 45 i 47 (yn seiliedig ar adran 35 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 7 iddi) yn manylu ar bwy gaiff wneud cynigion i newid categori ysgol; mae'r grid isod yn crynhoi hyn (ystyr WG yw ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ystyr WR yw ysgol wirfoddol a reolir ac ystyr CLI yw corff llywodraethu).

Categori o ysgol	Gall ddod yn	Cynigydd
Ysgol gymunedol	WG neu WR	CLI
Ysgol WG	Ysgol gymunedol neu WR	CLI
WR	Ysgol gymunedol neu WG	CLI
Ysgol sefydledig	Ysgol gymunedol, WG neu WR	CLI

63. Ni chaiff ysgol newid categori i ddod yn ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig. Ni chaiff ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol â chymeriad crefyddol newid categori i ddod yn ysgol gymunedol.

59. Schedule 2 sets out in detail the regulated alterations that may be made to a school. Amongst other alterations it allows for:
- alterations to the capacity of the school (paragraphs 10 to 14). In working out whether there is an alteration to the capacity of the school, previous alterations are taken into account so that changes to the capacity cannot be done incrementally without the need to make proposals;
 - an increase or decrease in the age range of the school (paragraph 5). An increase in the upper age range of a school does not permit the addition of a school sixth form. Separate provision in the Schedule (at paragraph 6) allows for a sixth form to be added (or removed) from a school;
 - alterations to the language medium of the school (paragraphs 7 and 8). These have been updated from the Education (School Organisation Proposals) (Wales) Regulations 1999 to reflect the introduction of the foundation phase and teaching methodologies in primary schools; these no longer refer to subjects but instead to percentages of time spent teaching pupils.
60. Paragraph 26 of the Schedule provides the Welsh Ministers with a power to add, change or remove a regulated alteration by Order.
61. These provisions are based on sections 28, 29 and 31 of the 1998 Act and regulations made under these powers.

Section 45 to 47 - Changing a school's category etc

62. Schools maintained by local authorities (other than maintained nursery schools) are divided into the different categories set out in section 20 of the 1998 Act. Sections 45 to 47 (based on section 35 of, and Schedule 7 to, the 1998 Act) detail who may make proposals to change a school's category; the grid below summarises this (VA means voluntary aided, VC means voluntary controlled and GB means governing body).

Category of school	Can become	Proposer
Community school	VA or VC	GB
VA school	Community or VC	GB
VC	Community or VA	GB
Foundation	Community, VA or VC	GB

63. No school may change category to become a foundation or foundation special school. No foundation or voluntary school with a religious character may change category to become a community school.

64. Er mwyn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr rhaid i gorff llywodraethu fodloni Gweinidogion Cymru y gall fodloni ei rwymedigaethau ariannol am gyfnod o bum mlynedd o leiaf ar ôl i'r newid categori ddigwydd (adran 46).
65. Nid yw newid categori yn awdurdodi unrhyw newid yng nghymeriad crefyddol yr ysgol nac yn ei hawdurdodi i sefydlu corff sefydledig (fel y'i diffinnir yn adran 21 o Ddeddf 1998), nac i ymuno neu ymadael â chorff o'r fath.
66. Os yw ysgol i ddod yn ysgol gymunedol, rhaid bod y cytundebau trosglwyddo y ceir manylion amdanynt yn Atodlen 4 wedi eu gwneud.

Adran 48 - Cyhoeddi ac ymgynghori

67. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgynghoriad ar gynigion trefniadaeth ysgol a'u bod yn cael eu cyhoeddi. Bydd y Cod yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgynghori ac yn ymwneud â sut a phryd y mae cyhoeddi cynigion. Rhaid i gynigwyr gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad. Rhaid i'r cynigwyr anfon copïau o'r cynigion cyhoeddedig at Weinidogion Cymru, ac at yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys yn achos cynigion i derfynu ysgol fach, sef un sydd â llai na 10 disgybl cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth o'r mis Ionawr blaenorol (fe'i diffinnir yn adran 56). Hwn yw'r dyddiad y cynhelir y Cyfrifiad Blyneddol Ysgolion (ac felly, bydd modd gwybod nifer y disgyblion sydd mewn ysgol ar y dyddiad hwnnw).

Adran 49 - Gwrthwynebu

68. Mae adran 49 yn galluogi unrhyw berson i wrthwynebu cynigion yn ysgrifenedig o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad cyhoeddi (a elwir "y cyfnod gwrthwynebu") ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a wnaed ynghyd â'u hymatebion i'r gwrthwynebiadau hynny cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben. Ond os yw awdurdod lleol yn penderfynu ar ei gynigion ei hun, rhaid iddo gyhoeddi'r crynodeb a'r ymateb o fewn 7 o ddiwrnodau o'i benderfyniad o dan adran 53. Bydd awdurdod lleol yn penderfynu ar ei gynigion ei hun os nad yw'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50.

Adrannau 50 i 53 - Cymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt

69. Pan fo cynigion yn ymwneud ag addysg chweched dosbarth neu pan fo'r awdurdod lleol perthnasol wedi gwrthwynebu cynigion, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynigion. Pan fo cynigion wedi cael gwrthwynebiadau (gan berson heblaw'r awdurdod lleol), ond nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol perthnasol eu cymeradwyo. Yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw, neu a fydd yn ei chynnal, yw'r awdurdod lleol perthnasol.
